

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 11eg Fai 2015

Presennol - Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Siân Godbert, Marion Betteney, Gareth Parry, Janet Charlton, Cyngorydd Sir Elisabeth Roberts, Caerwyn Roberts, Clerc.
Ymddiheuriadau, Jim Boughton, Meirion Owen, Karen Pugh, Terry Bullock.
Datgan diddordeb, Datganwyd diddordeb gan y Cyng. Siân Godbert yng nghofnod [2.5]
Penderfynwyd nad oedd yn rhagfarnu ar y mater dan sylw.

(1)Yr Heddlu

Cyfeiriodd PCSO Dean Cavey at gynnig gan Gyngor BS Conwy i greu Gorchymyn Amddiffyn Mannau Cyhoeddus i atal rhag ymddwyn gwrthgymdeithasol a hefyd neidio o Bont y Pair. Bydd y gorchymyn yn gosod dirwy yn y fan ar lle i unrhyw un sy'n torri'r gorchymyn.

(1.1) Cais i gynnal Pont Droed Gorsaf Drên Betws-y-coed

Nodwyd bod y mater yn parhau.

(1.2) Difrod i falconi'r Neuadd Goffa

Dywedodd y clerch ei fod yn disgwyl adroddiad ynglŷn ar difrod.

[1.3] Canghenni Coed Eiddew/Llwybr o Ffordd yr Orsaf i Stablau'r Royal Oak

Eglurodd y clerch ei fod wedi gwneud cais gydag Edward Jones APCE i gael torri'r canghennau.

(1.4) Cwn yn baeddu yng Nghae Llan

Y clerch i ofyn am ymweliad gan y warden cwn i Pentre Du.

[1.5] Pencampwriaeth y Byd Ras Redeg Mynydd

Cyfeiriodd y clerch at gais am nawdd gan Gyngor BS Conwy, Penderfynwyd cyfrannu trwy osod y neuadd a Chae Llan yn rhad ac am ddim.

[1.6] Llechi Rhydd [Siop Wag] Ultimate Outdoors

Dywedodd y clerch nad oedd unrhyw wybodaeth pellach wedi dod i law gan Gyngor B S Conwy. Penderfynwyd felly cysylltu gyda Peter Brown, Pennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio.

[2.3] Materion Priffyrdd

Priffordd yr A5 ger Glenwood. Nodwyd yr ymateb gan y Cynulliad Cenedlaethol. Y clerch i wneud cais pellach i geisio ymestyn y llinellau.

Y brif agenda

[2.4] Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod . Eglurodd bod y cyfarfod yn cael ei ohirio i ganiatáu i'r cyhoedd wneud sylwadau ar y ddau fater canlynol :

[1] Talu ac Arddangos Maes Parcio Ffordd yr Orsaf

[2] Cais Cynllunio Cynllun Trydan Hydro, Rhaeadr y Graig Lwyd Afon Conwy.

Yn dilyn i'r cyfarfod ail ymgymull penderfynwyd fel a ganlyn;

Talu ac Arddangos Maes Parcio Ffordd yr Orsaf. Gan nodi gohebiaeth oddiwrth Mr& Mrs Potgieter [a] Bod y penderfyniad i gyflwyno taliadau wedi ei wneud gan Ystâd Ancaster a Pharc Cenedlaethol Eryri. [b] Bod y Cyngor eisoes wedi tynnu sylw'r Parc Cenedlaethol i'r ffaith bod parcio am ddim i drigolion lleol. [c] Bod y ddeiseb a gyflwynwyd yn y cyfarfod i gael ei hanfon ymlaen at aelod y Cynulliad Janet Finch Saunders.

[2.5] Materion Cynllunio

[a] Cais Cynllunio Cynllun Trydan Hydro Fairy Glen Afon Conwy.

Penderfynwyd anfon at Barc Cenedlaethol Eryri bod y Cyngor Cymuned yn pryderu am yr effaith y bydd datblygiad o'r fath yn ei gael mewn lleoliad o'r afon Conwy lle nad oes dim tarddiad. Fod yr aelodau yn pryderu yn enwedig am yr effaith amgylcheddol gan gynnwys cynigion adeiladu mewn ardal sydd yn enwog am ei llonyddwch a harddwch. Bod sylwadau wedi ei gwneud i'r Cyngor yn datgan pryder a bod yr aelodau yn rhannu'r pryderon hyn.

[b] Gosod peiriant ATM allanol ar lefel is. Tŷ banc y Midland, Ffordd Caergybi, Betws-y-Coed.

[c] Newid defnydd o siop i gaffi/bwyty Uned 1 Ffordd yr Orsaf, Betws-y-Coed.

[d] Tystysgrif Cyfreitholdeb o ddefnydd neu ddatblygiad presennol. Fferm Pentre Du, Betws-y-Coed.

[e] Caniatâd hysbyseb i arddangos arwydd heb ei oleuo ac yn fewnol wedi ei oleuo. Tan Lan, Ffordd Caergybi, Betws-y-Coed.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r 4 cais uchod.

[2.6] Man Chwarae Cae Llan

Croesawyd Mr Neil Pigdon i'r cyfarfod ac amlinellodd y posibilrwydd o greu man chwarae ar Cae Llan am gost o £50,000. Cytunodd i ystyried gwahanol gynlluniau eraill ac i ddarparu rhagor o wybodaeth i'w hystyried. Cytunodd y Cyng. Elisabeth Roberts i archwilio'r posibilrwydd o gyllideb.

[2.7] Materion Ariannol

(a) Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau (a ddsbarthwyd) a wnaed ym mis Ebrill 2015.

(b) Y Rhaeadr Ewynnol –Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Ebrill 2015

[c] Penderfynwyd cymeradwyo y cyfrifon i ddiwedd y flwyddyn ariannol 30ain Fawrth 2015. Adroddiad yr Archwiliwr Mewnol – Cyfeiriodd y clerc at y ddau fater canlynol a godwyd gan yr archwiliwr.

[1] Fod y Cyngor wedi cael lwfans cyflogaeth gan HMRC nad oedd yn deilwng a bod taliad o £633.38 yn daladwy iddynt.

Y clerc i drefnu'r taliad i HMRC

[2] Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn bodloni gofynion y rheoleiddiwr pension mewn perthynas i gofrestru yn y cynllun.

[2.8] Defliberator

Esboniodd y Cyng Gwawr Jones bod defliberator ar gael i'r pentref yn rhad a ddim. Y clerc i gysylltu gyda Mr Glenn Evans i ymholi a fyddai'r Gwesty Waterloo yn lleoliad addas.

[2.9] Maes Parcio pen Isaf Ffordd yr Orsaf

Y clerc i dynnu sylw fod ysbwriel yn cael ei daflu yn y maes parcio ac i ofyn i'r Parc Cenedlaethol ddarparu biniau yn ymyl y peirannau talu ac arddangos.

[3] Taflen Wybodaeth Rhaeadr Ewynnol

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyfarfod a fynychwyd ganddo ef a'r clerc gyda Lady Willoughby a MrWilliam Hall. Roedd y drafodaeth yn bennaf ynglyn a'r Rhaeadr Ewynnol ac awgrymwyd y posibilrwydd o gynhyrchu taflen wybodaeth i gefndir hanesyddol y Rhaeadr. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n cysylltu gyda'r hanesydd lleol Mr Glyn Jones ynglyn a'r mater.

Cadeirydd _____